

15fed Chwefror 2016

## At sylw: Cymdeithasau Dyffryn Ogwen

Annwyl gyfaill,

### Parthed: Gwahoddiad i Lansiad Ynni Ogwen Cyf

Fel y gwyddoch, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn datblygu cynllun Hydro cymunedol arloesol ar Afon Ogwen ers tua 2 flynedd. Cynllun cymunedol pur yw hwn. Cynllun rydym eisiau i'r gymuned ei berchnogi ac elwa ohono. Ysgrifennaf felly i'ch gwahodd yn gynnes i lansiad Ynni Ogwen Cyf yn Neuadd Ogwen ar y **27ain o Chwefror am 2 o'r gloch**.

Cymdeithas budd cymunedol yw Ynni Ogwen Cyf a'n gweledigaeth yn syml yw defnyddio grym llif Afon Ogwen i gynhyrchu trydan a defnyddio'r elw i'w ail-fuddsoddi yn ein cymunedau. Er i ni wynebu heriau aruthrol, yn cynnwys toriadau o du San Steffan i'r cyfraddau FITs, mae'n braf gallu dweud fod gan Ynni Ogwen Cyf gynllun cymunedol hyfyw fydd yn dod â budd amgylcheddol a chymdeithasol i'r ardal. Bydd y cynllun yn cynhyrchu tua 500,000 kW awr o egni gwyrdd y flwyddyn gan arbed 245 tonnell o allyriadau carbon yn flynyddol. Bydd y cynllun yn cynhyrchu oddeutu £68,000 o incwm yn flynyddol gyda chyfran o'r incwm yma yn mynd yn ôl i ad-dalu benthyciadau i'r banc a thalu dididend i'n cyfranddalwyr cymunedol (rhwng 3% a 5%). Bydd unrhyw weddill yn cael ei roi i elusen newydd fydd yn dyrannu'r arian i fudiadau cymunedol ac amgylcheddol yn lleol.

Mae costau adeiladu cynllun Hydro Ogwen yn debygol o fod oddeutu £500,000. Ar y 27ain o Chwefror, byddwn yn agor cynllun cyfranddaliadau cymunedol fydd yn rhoi cyfle i bobl leol, cymdeithasau a busnesau fuddsoddi yn ein menter. Bydd y lansiad yn cynnwys cyflwyniadau gan Ynni Ogwen Cyf a gair o brofiad gan un o sylfaenwyr cynllun cymunedol llwyddiannus Ynni Anafon, Abergwyngregyn. Yn ystod y lansiad hefyd, bydd anerchiad byr gan Alun Ffred Jones AC a dangosiad o ffilm arbennig a gynhyrchwyd gan Gwmni Da i hyrwyddo ein menter. Yn bwysicach, bydd y lansiad yn gyfle i chi ddod i wybod mwy am Ynni Ogwen Cyf, ein gweledigaeth a'n bwriad wrth ddatblygu'r cynllun cymunedol cyffrous hwn.

Mae'r cynllun cyfranddaliadau cymunedol ar agor i unigolion a sefydliadau ac mae croeso i chi a/neu'ch cymdeithas fuddsoddi yn ein menter. Mae gwybodaeth bellach am y cynllun ar [www.ynniogwen.cymru](http://www.ynniogwen.cymru) neu mae croeso i chi drafod yn uniongyrchol â Meleri Davies. Yn y cyfamser, buasem yn gwerthfawrogi yn fawr pe bai eich cymdeithas yn gallu anfon cynrychiolwyr i'r digwyddiad lawnsio gan gadarnhau eich presenoldeb trwy e-bostio – [partneriaeth@ogwen.org](mailto:partneriaeth@ogwen.org) neu ffonio 01248 602131 **erbyn y 23ain o Chwefror**.

Diolch rhag blaen am eich cefnogaeth.



Meleri Wyn Davies  
**Cyfarwyddwr**

### Ynni Ogwen Cyf.

26 Stryd Fawr, Bethesda, Gwynedd. LL573AE

01248 602131

[www.ynniogwen.cymru](http://www.ynniogwen.cymru)

Rhif Cofrestru/Registration Number: 7222